# y dinesydd

Medi 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 221


# COFIO LYNN (1926-1996)

**Ar drothwy'r Eisteddfod Genedlaethol, bu farw Lynn Jones, un o gymwynaswyr mawr *Y Dinesydd* dros y blynyddoedd. Dyma ei gyfaill agos, R. Alun Evans, i dalu teyrnged iddo.**

Pan fyddai Lynn yn ffonio'r tŷ byddai'r cyfarchiad yn un cellweirus syml - 'Alun Ifans, Lynn Jones.' Ond y tro hwn, dim cellwair, 'Lynn sy 'ma Alun. Ma' Harry Daniel wedi marw.' 'O damo,' meddwn innau yn fy siom. 'Ie Alun, ie. Damo.' Roedd cymydog o'r dyddiau gynt ac un ffyddlon yng Nghapel Minny Street wedi ei golli. Ganol Mai oedd hi.

Pan symudodd Lynn a Heulwen o Lundain i Gaerdydd fe ddaethant i fyw i Brandreth Road. Y capel agosa oedd Minny Street. Yno ddaru ni gyfarfod gan eistedd o fewn sedd i'n gilydd. Buan y daeth hi'n amlwg fod mwy o gynghanedd a harmoni yn y berthynas na'r morio canu a roddodd i ni gymaint pleser am flynyddoedd. Lynn oedd y baswr. Ac fel y dywedodd ei weinidog ar ddydd ei angladd yr oedd iddo waelod cadarn fel cymeriad.

Roedd y gwreiddyn yng Nghapel Isaac ger Llandeilo. Fe'i ganed yn Ystalyfera. Cyfnod yn Llundain a chyfarfod yna â Heulwen, ei ffrind penna. Byd yswiriant oedd ei faes. Ond anaml y soniai am hynny ar ein teithiau. Yn wir, anaml iawn y soniai Lynn amdano'i hun. Cyfarfod â phobl eraill oedd ei ddileit a chlywed eu hynt a'u helynt.

Daeth i nabod mannau gwahanol yng Nghymru wrth i ni grwydro fel Pedwarawd i gynnal cyngherddau. Daeth i nabod y bobl yn y mannau hynny, a'u cofio. Ar faes Steddfod byddai'n eu cofio am fod ganddo ddiddordeb gwirioneddol mewn pobol.

Bu'n 'llais' ar y maes Rygbi Cenedlaethol am rai tymhorau. Cefnogi Clwb Caerdydd oedd ei bleser ar y Sadwrn. Ond ei gefnogaeth ar y Sul a gofir bennaf a hynny yn ei gapel ac i'w weinidog a'i gyd-aelodau. Un llawen ei groeso yn y cyntedd; un parod ei wên yn y sedd fawr ac un diflino ei gymwynas yn y dirgel.

Does ryfedd fod pobol o bob oed wedi ymweld ag ef yn ei waeledd byr. Does ryfedd chwaith bod y capel dan ei sang ar ddydd ei angladd. Yn ei gystudd fe ganfu gyfrinach 'y dwfn ddistawrwydd'.

Ni ellid fod wedi dweud yn well amdano nag a wnaed ar daflen ei angladd - 'Gŵr addfwyn ac anwylaf Heulwen.' Roedd hi'n ddechrau Awst.



Lynn a Heulwen Jones

### A dyma deyrnged gan ei weinidog, *Ieuan Davies:*

Ym marwolaeth yr addfwyn Lynn cafodd y Gymdeithas Gymraeg a'r Dystiolaeth Gristnogol yng Nghaerdydd golled enbyd. Hanai o Ystalyfera ac o Eglwys Annibynnol y Gurnos a bu'n driw, bob cam, i'r graig y'i naddwyd ohoni. Bu'n gweithio yn Llundain am dair blynedd ar ddeg a dychwelodd ef a Heulwen, ei briod, i Gaerdydd yn y chwedegau i fyw ym Mhen-y-lan ac yna yn Llandaf. Bywyd ar y cyd ymhob ystyr posib fu bywyd Lynn a Heulwen, yn gariadlon-lawen yn ei gilydd ac yn rhannu'r llawenydd cyfeillgar hwnnw yn hael â'u teulu ac â'u ffrindiau niferus - daeth llond capel o'u cyfeillion i'w arwyl ar 7 Awst - yn barhaus. Fe'u doniwyd yn helaeth ill dau a hau y da, y gwir a'r prydferth a wnaethant yn gyson, a hynny mewn llawer dull a llawer modd. Ac yn unman yn fwy, wrth gwrs, nac ym Minny Steet lle bu Lynn yn ddiacon a swyddog ffyddlon a gweithgar tu hwnt. Doedd neb yn fwy serchog-hynaws, yn ein croesawu bob un yn ddiwahân, yn ein gwneud oll - o'r ifancaf i'r hynaf - yn gartrefol, ac yn ein clymu'n un drwy'i ffordd rwydd â phobl a'i bersonoliaeth radlon-hwyliog. Yng nghyfnod sydyn yr afiechyd blin a'r llesgedd cynyddol bu aelwyd 'Eirianell' yr un ei chroeso agored-garedig i'r lliaws ohonom, o bob oed, fu'n ymweld â Lynn. Ac yntau, er y gwendid parhaol, yn hynaws-rasol a gwrol ryfeddol. Hyn i gyd, yn sicr, oherwydd ei ffydd gadarn ef yn ei Waredwr, 'consarn' cyson ei gyfeillion amdano - yn arbennig Dr. Jestyn a'i dîm o nyrsys - ynghyd â chariad cynhaliol partner anwylaf ei fywyd. Derbyniwch, Heulwen - ac nis anghofiwn Rhys ac Enfys, ei frawd a'i chwaer - gydymdeimlad cywiraf eich cyd-ddinasyddion.

* * *

# Y Dinesydd

**Medi 1996, Rhif 221.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Hydref at un o'r canlynol erbyn 20 Medi:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 481280 est. 236): Gweithgareddau Dysgwyr.
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pentwyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

### Cywiriadau

Graham Thomas wrth gwrs, ac nid Graham Jones oedd perchennog yr 'Alltud' yn y stori ar dudalen blaen y rhifyn diwethaf.

Y Parchg Beti-Wyn Davies - ac nid y Parchg Pamela Cram fel y nodwyd yn rhifyn Mai o'r *Dinesydd* - a draddododd y bregeth yng ngwasanaeth cydenwadol y Groglith yn Eglwys Dewi Sant eleni.

### FFURFLEN CYFRANNU A THANYSGRIFIO

a. Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd. ☐

b. Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*. ☐

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................


.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 153** **Medi 1996**



**AR DRAWS**

1. Cyfle i oleuo'r dorf sy'n lluesta am dro. (8)
5. Byddid yn gosod y tŷ i denant. (6)
9. Pentre a phlwy ar yr A 487 yn Sir Gaernarfon. (8)
10. Orion er enghraifft. (6)
12. Deio yn tario o gwmpas. (4)
13. Mae Luc yn gwasanaethu pob aelwyd. (5,5)
15. Penderfynu ar ôl ystyried y dystiolaeth. (3,1,1,8)
19. Pont grog a fu yma. O golli munud gellir ei thrwsio heb oedi mwy. (5,2,6)
23. Daeth Eleri a threfn i ddifa cyffes gwahanol. (10)
25. Ceg agored. (4)
28. Darganfyddiad Marie Curie. (6)
29. Yn diasbedain. (8)
30. O'r lle acw. (6)
31. Cydnabyddwyd ei wasanaeth â rhodd. (8)


**I LAWR**

1. Mae tipyn o ddawn gan y Gogleddwr acw. (6)
2. Clywaf sŵn y ferch am ysbaid fer. (5)
3. Cyfaredd y llais wy'n ei gofio. (4)
4. Mae mwy na dwsin o blwyfi yng Nghymru sy'n arddel yr enw hwn. (7)
6. Cafodd cymuned o ffermwyr Cymraeg eu troi oddi ar y mynydd hwn ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. (5)
7. Trugarhaf wrthi, ac felly af trosti i'r 'Bedol'. (9)
8. Yr Oriel neu'r Odeon? (8)
11. Bydd y call yn ofalus o'i stumog. (4)
14. Llinyn a ddefnyddir i glymu cwpledau'r beirdd? (4)
15. Byddai yn trosglwyddo gwres neu drydan. (9)
16. A fydd paratoi bwyd yn rhan o waith yr edn hwn? (3)

**Croesair Rhif 151 (Mehefin 1996)**
Dim ond dwy ymgais a ddaeth i law y mis hwn, a dim ond un ohonynt oedd yn hollol gywir. Felly i Carys Humphreys, 1 Bodlondeb, Bangor yr aiff y tocyn llyfrau £5 y tro hwn.

**Croesair Rhif 152 (Gorff./Awst 1996)**
Daeth 16 ymgais i law, pump ohonynt â rhyw wall bach a'r gweddill yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd Miss Grace Farthing, 10 Min-y-môr, Y Barri, ac mae'r tocyn llyfrau eisoes ar ei ffordd iddi. Y deg di-wall arall oedd: Marged Davies, Llandaf; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; T.A. Owen, Y Borth; Dilys Gunston, Cyncoed; Huana Simpson, Y Bont-faen; James Wiegold, Rhiwbina; Marian Lake, Llanfihangel-ar-Elái; Gwenda Mai Hopkins, Llanisien; E. Haydn Jones, Rhiwbina; ac Eira Jones, Y Mynydd Bychan.

**Croesair Rhif 153 (Medi 1996)**
Eich datrysiad i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed erbyn dydd olaf mis Medi hyd y mae hynny'n bosibl, ond ni wrthodir unrhyw ymgais a ddaw i law cyn amser gyrru'r croesair nesaf at yr argraffwyr.




## MERCHED Y WAWR

Deffrwch, deffrwch ferched Caerdydd, mae'r wawr ar dorri! Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â changen leol Merched y Wawr yn fisol ar yr ail nos Lun o bob mis yn ystod y Gaeaf yn festri capel Minny Street.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBINA

Ar 7 Hydref, fe fydd Noson Bys a Bawd. Pawb i ddod â'i fraich yn gam, fel arfer. Os hoffech gymryd rhan yn yr adloniant, fe fydd Mair yn falch i glywed oddi wrthych.

**Trosglwyddwyd** elw'r Gymdeithas y llynedd i Ysbyty Felindre, ac fel rhan o'r gwaith dyngarol, fe fyddwn yn casglu stampiau post ar gyfer Ymchwil i Ganser eto eleni.

**Croeso** cynnes i Margaret a Selwyn Jones, Cyncoed gynt, sydd newydd symud i fyw i Heol Iscoed, Rhiwbina. Pob hapusrwydd i chwi yn ein plith.

**Croeso** nôl hefyd i Gwilym Roberts, ar ôl ei flwyddyn ym Mhatagonia. Oherwydd llwyddiant ei waith ef, a gwirfoddolwyr tebyg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae twf aruthrol wedi bod yn yr iaith Gymraeg - yn arbennig ymhlith y bobl ifainc.

* * *

**Pob hapusrwydd** i Eirwen Titley yn ei hymddeoliad, ac yn ei chartref newydd ym Mhen-coed. Diolch iddi am y blynyddoedd o ofal a roddodd i'r henoed yn ei chartref yn yr Eglwys Newydd.


**Cynhelir** y Bumed Ffair Ryngwladol ddydd Sadwrn, 23 Tachwedd 1996 o 11 o'r gloch y bore tan 4 o'r gloch y prynhawn yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Bydd stondinau gydag anrhegion ar werth a gwybodaeth o bedwar ban y byd. Bydd hefyd adloniant a lluniaeth ysgafn ar gael. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach gan Jill Hutt, 01222 563790.

**Cydymdeimlwn** â'r ddau bensaer, Bob Roberts, Rhiwbina, a John Roberts, Aberthin ar farw eu mam, Mrs Elliw Roberts, yn Nefyn, yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Guto Owen ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyngor Addysg yr Amgylchedd yng Nghymru.

**Llongyfarchion** i Siân Jones, Y Mynydd Bychan, ar gael ei phenodi'n aelod o bwyllgor Bafta. Y pwyllgor dylanwadol hwn sy'n penderfynu pa rai o raglenni S4C ac ati sy'n cyrraedd y brig ac yn ennill y gwobrau mawrion.

**DATRYSIAD CROESAIR MEHEFIN**



**DATRYSIAD CROESAIR GORFF./AWST**



### Calendr y Dinesydd

**20 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Cofio Gwenynen Gwent'. Darlith gan Dr Siân Rhiannon, yn festri Capel Minny Street am 7.00 p.m.

**27 Medi**
Noson deuluol yng nghwmni'r Brodyr Gregory, Martyn Geraint ac eraill. Canolfan yr Urdd am 7.30pm.

**30 Medi**
Cell yr Eglwysi Cymraeg, Cymdeithas y Cymod: 'Countering Bullying' gan Delwyn Tattum o Athrofa Prifysgol Cymru, yn Ysgol Glantaf Uchaf, am 7.30 p.m.

**7 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson Bys a Bawd yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30p.m.

**11 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson dan ofal y Llywydd, Mr John Meredydd Jones, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30p.m.

**14 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Simon Moffatt, Cwmni Olew Texaco, ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30p.m.

Cyfarfod o Ferched y Wawr yn festri Capel Minny Street.

**18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Cerdd Dafod a Cherdd Dant'. Darlith gan Dr Enid Pierce Roberts, Bangor, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00p.m.

**4 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson dan ofal Mallt Anderson a Myfanwy Jarman yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30p.m.

**8 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Mr a Mrs Rhys Morgan ar deithio Canada yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30p.m.

**9 Tachwedd**
Theatr Sherman: Cwmni 'O Glust I Glust' yn cyflwyno'r rhaglen i blant, 'Straeon a Cherddoriaeth o Bedwar Ban Byd i Bawb', yn yr Arena am 11.00a.m.

**9 Tachwedd**
Ysgol Undydd ar 'Lenyddiaeth y Ddinas' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd yn 38 Park Place, Caerdydd, o 10.30am tan 4.00pm. Darlithydd: Simon Brooks (Golygydd *Barn*). Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**11 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Cyfarfod ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30p.m. Manylion: 01222-563914.

Cyfarfod o Ferched y Wawr yn festri Capel Minny Street.

**15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Astudio Tafodiaith yng Nghaerdydd'. Darlith gan Mr Vincent H. Phillips yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Llongyfarchion** i David Lloyd am gael ei benodi'n bennaeth rhaglenni cymunedol gyda HTV. Yn ogystal â David Lloyd mae Elis Owen, sydd ar hyn o bryd yn bennaeth newyddion a materion cyfoes yn cael ei benodi'n bennaeth rhaglenni ffeithiol ac Emlyn Penny Jones, pennaeth rhaglenni adloniant a phlant yn mynd yn bennaeth adran adloniant a chelf.

## Huw Davies, HTV, Wedi Ymddeol Yn Gynnar

Ymddeolodd Huw Davies, Llywydd HTV Rhyngwladol a Chyfarwyddwr ar Fwrdd Grŵp HTV yn gynnar ddiwedd Gorffennaf ar ôl gwasanaethu'r Cwmni'n anrhydeddus am dros ddeng mlynedd ar hugain. Cafodd ei benodi'n Rheolwr Rhaglenni yn 1978 ac yn Gyfarwyddwr Teledu yn 1988. Pob dymuniad da iddo ar ei 'ymddeoliad'. Dewiswyd y dyfynodau'n fwriadol gan fod ganddo nifer o syniadau cyffrous ar y gweill ynghylch llenwi ei amser.

## Y DDINAS YN Y STEDDFOD

Un o anrhydeddau mwyaf yr Eisteddfod Genedlaethol yw gwahodd rhywun i gylch yr Orsedd ac mae'n dda gan *Y Dinesydd* weld i nifer o'n dinasyddion gael eu hanrhydeddu eleni. Aeth gwisg wen er anrhydedd i'r Prifardd Aled Gwyn o'r Eglwys Newydd a hefyd i'r Prif Lenor Angharad Jones, merch Lisa a Gwyn Erfyl, a gafodd ei haddysg yn y ddinas. Mae John Evans, Radur (Siôn Caron) wedi cael ei ddyrchafu i'r wisg wen oherwydd ei gyfraniad mawr i fyd y bêl. Mae Dr Haydn Hugh Griffiths Jones, Dinas Powys, brodor o Gaerdydd a ddaeth dan ddylanwad y diweddar W. C. Elvet Tomas, wedi cael y wisg werdd, Urdd Ofydd. Mae Dr Thomas yn feddyg teulu yn Ninas Powys. Ef yw Cyfarwyddwr Cerdd Seindorf Arian Dinas Powys. Mae Mr Roy James, Llanisien wedi ei ddyrchafu i'r wisg wen, Urdd Derwydd, ar gyfrif ei waith clodwiw yn myd addysg. Cyn ei ymddeoliad roedd yn Brif Arolygydd Ysgolion Cymru yn y Swyddfa Gymreig. Mae Glan(ville) Roberts hefyd wedi cael y wisg wen, Urdd Derwydd. Mae Glan yn ddiacon yn Eglwys Annibynwyr Ebeneser, Caerdydd ac yn aelod o Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Treuliodd ei fywyd yn bensaer ac elwodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn fawr ar ei arbenigedd.


## ENNILL YN YR EISTEDDFOD

Mae Band Pres RAF Sain Tathan yn enw cyfarwydd yn yr Eisteddfod. 'Dau utgorn a thrwmped pe cawn...' yw hi gyda'r band, ac fe enillodd wobr gyntaf yn adran yr ail ddosbarth. Ym myd cyfansoddi enillodd Rhian Wyn Griffiths a John Adrian Jones o Dreganna wobr gyntaf am gyfansoddi cân bop gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad. Mae Côr Caerdydd yn lleisiau amlwg erbyn hyn a daeth gwobr gyntaf iddo yn adran y corau cymysg. Côr arall sy'n prysur ennill enw iddo'i hun yw Côr Merched Canna a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y côr i ferched ac yn drydydd yng nhystadleuaeth y Côr Cerdd Dant. Daeth Simon Davies, Tyllgoed a Sioned Page, Caerfyrddin yn gyntaf yn y ddawns stepio ar y pryd a chafodd Emyr Martin wobr gyntaf am gyflawni tasg gyda'r cyfrifiadur. Daeth ail wobr i Catrin Heledd yn y gystadleuaeth lefaru i rai rhwng deuddeg ac un ar bymtheg oed a gwobr gyntaf i'r Grŵp Dawns o Dreganna yng nghystadleuaeth ddawns y Gymdeithas Ddawns. Enillodd Paul Carey Jones wobr gyntaf yn yr unawd i rai rhwng pedair ar bymtheg a phump ar hugain oed a daeth ail wobr i Meriel Jane Andrew yng nghystadleuaeth yr unawd soprano. Cafodd Rebecca Thomas wobr gyntaf yn y gystadleuaeth offerynnau chwyth i rai rhwng deuddeg a phymtheg oed. Enillodd Mary Jones wobr gyntaf am lefaru'n gampus i gyfeiliant telyn ac aeth y brif wobr yn yr adran offerynnol i Kim Morgan am ddatganiad a enillodd gryn glod. Daeth ail wobr i Jennifer Hunter am ganu'r piano i rai dan bedair ar bymtheg oed, ac ail wobr hefyd i Gwmni Dawns Caerdydd am ddawnsio gwerin i rai dan bump ar hugain oed ac yng nghystadleuaeth Gwobr Coffa Lois Blake.

Yn y gystadleuaeth 'Cael Wil i'w Wely' yn y Babell Wyddoniaeth dyfarnwyd yr ail wobr i Peredur Evans, Wyn Jones (gynt o'r Eglwys Newydd) a Tom Mainwaring (brawd-yng-nghyfraith Wyn). Daeth Elen Rhys yn ail yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa y Fonesig Herbert Lewis, a Chwmni Theatr Crwys yn ail ar berfformio drama fer. Llongyfarchiadau cynnes i bawb!

## Y STEDDFOD

Cafodd nifer fawr o drigolion y Ddinas lwyddiant yn y Steddfod Genedlaethol yn Llandeilo ym mis Awst, fel y gwelwch uchod. Ond a sylwoch chi gynifer o'n plith ni oedd yn feirniaid eleni? Dyma i chi rai ohonyn nhw: Richard Elfyn Jones, Miriam Bowen, Robert Codd, Menai Davies a Carlo Rizzi yn y cystadlaethau cerddorol. Ac yn eu plith roedd Ingrid Surgenor, sy'n fwy cyfarwydd i ni fel cyfeilyddes. Roedd ei chlywed yn traddodi'r feirniadaeth ar Ysgoloriaeth Towyn Roberts yn bleser pur, yn enwedig pan gofiwch mai o Ogledd Iwerddon y daw Ingrid. Mae'n fraint i ni gael cyfeilyddes o fri rhyngwladol fel hi yn ein plith.




Yn y maes llenyddiaeth ac adrodd wedyn, tafolwyd gan bobl fel Jim Jones, Dafydd Hywel, Eleri Hopcyn a Guto Harri, a dylid bob amser gofio am gyfraniad gwych cyfeilyddion y Steddfod, fel Gwawr Owen a Huw Tregelles Williams, a'r rheiny a fu'n cyflwyno'r amrywiol weithgareddau.

## SYMUD YMLAEN

Mae Siân Parry Jones wedi gadael Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymuno â thîm marchnata Cyngor a Sir Caerdydd. Colled i'r naill ac ennill i'r llall.

Mae Sharon Griffiths hefyd wedi gadael y Bwrdd ac ar ei ffordd i'r Gorllewin i weithio i gwmni teledu Agenda. Dymuniadau da iawn i'r naill a'r llall.

## HELP LLAW I'R WASG YN HTV

Llongyfarchion i Catrin Rowlands ar gael ei phenodi'n gynorthwy-ydd y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus HTV. Cyn ymuno â HTV fe raddiodd Catrin yn y gyfraith cyn dilyn cwrs diploma ar Astudiaethau Newyddiadurol ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd. Hi fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r *Dinesydd* yn awr ac yn y man gyda phytiau o newyddion. Mae tad Catrin, Clive, yn ddarlithydd yn y Gymraeg yn Athrofa'r Brifysgol yng Nghyncoed.



Catrin Rowlands

Cafodd Catrin ei geni yn Aberhonddu ond mae wedi byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd ac roedd yn un o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Glantaf.

* * *

**Estynnwn** ein cydymdeimlad i deulu Miss Elizabeth Jane Miles, Llandaf, a fu farw ar 20 Mehefin. Hanai o deulu nodedig am eu doniau llenyddol a cherddorol ac am eu cariad at 'y pethe', sef teulu 88 Ffordd Bedwas, Caerffili. Y mae ei nith, Eleri Rogers, yn golofnydd cyson yn *Y Cymro*; nith arall iddi yw'r cerddor o Aberystwyth, Bethan Miles; ac y mae'r bardd byd-enwog, R. S. Thomas, yntau yn y llinach.

**Priodas** ddedwydd i Eryl Siriol Williams, merch y Parchedig Cynwil a Mrs Williams ar ei phriodas â'r Dr Bryn Martin Wilde ddiwedd Gorffennaf. Mae Siriol yn athrawes yn Ysgol Cymer, Cwm Rhondda.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS UNDODAIDD WEST GROVE, CAERDYDD

Ychydig yn ôl cafwyd cinio yng Ngwesty'r Ffenics, Llanisien i anrhydeddu'r Parchg. Eric Jones ar gwblhau ohono ei chwarter canrif gyntaf yn weinidog ar yr eglwys uchod. Dechreuodd ar y weinidogaeth ar 1 Mai 1971 ac mae'n rhan o'i ofalaeth gyda'r ddwy eglwys yn Aberdâr lle mae ef a'r teulu'n byw. Mae'n frodor o Gribyn yng Ngheredigion ac mae wedi treulio 34 o flynyddoedd yn Aberdâr fel gweinidog ar yr Hen Dŷ Cwrdd a Highland Place. Bu aelodau'r cynulleidfaoedd Saesneg a Chymraeg yn bresennol yn y cinio yn Llanisien. Trefnwyd yr achlysur gan Sheila Cousins a chafwyd gwerthfawrogiad o waith Eric Jones ac Ann ei wraig gan Jane Davies - hithau, fel Sheila, yn aelod o un o hen deuluoedd yr Eglwys. Cyfeiriodd Robert Davies (Caerdydd a Sweden) at waith arloesol West Grove, dan arweinyddiaeth Eric Jones, yn sefydlu ac yn cynnal Gwersyll Cwmwr Du. Bu sôn hefyd am ei gyfnod arbennig o lwyddiannus yn Llywydd Eglwysi Undodaidd y Deyrnas Unedig yn 1991 ac am ei amryfal weithgareddau 'allanol' - yn olygydd papur bro cylch Aberdâr, yn gadeirydd Rhieni Ysgolion Cymraeg Morgannwg Ganol ac ati.

Y llynedd buwyd yn cofio achlysur arbennig arall - deugeinmlwyddiant ordeinio'r Parchg. Roy John yn weinidog gyda'r Undodiaid; bu'n weinidog, ac yn ddiweddarach yn weinidog cynorthwyol, ar West Grove am nifer o flynyddoedd. Yn ystod ei gyfnod ef - ar 10 Hydref 1954 - y dechreuwyd cynnal gwasanaethau Cymraeg rheolaidd yn West Grove - hyd at hynny achos uniaith Saesneg yn unig fu yno. Cynhelir y gwasanaethau Cymraeg am 3.30 o'r gloch ar yr ail Sul yn y mis heblaw am fisoedd yr haf pryd y cynhelir hwy am dri o'r gloch yng Nghapel Pen-rhiw, Sain Ffagan - capel a fu unwaith yn rhan o'r 'Smotyn Du' Undodaidd yn Nyfed.

## MINNY STREET CAERDYDD

### DIACONIAID NEWYDD

Fis Gorffennaf dewiswyd y canlynol i weithredu fel diaconiaid am yr wyth mlynedd nesaf: Emyr Currie-Jones, Margaret Davies, Seiriol Davies, Gareth Wallis Evans, Peter Gillard, Havard Gregory, Dwyfor Lyn Jones, Glyn Evans Jones, Gwenda Morgan, Arwel Thomas, Leslie Thomas ac Alun Treharne.

## PRIODASAU AWST

Rebeca Llwyd Evans (merch John a Tegwen) ac Edward Wyn Jones ar y 9fed.

Rhian Eleri Jones (merch Ieuan a Heulwen) a Kevin Widgery ar yr 16eg.

Ruth Davies (merch Gerald ac Elisabeth) ac Aled Wyn Williams ar yr 23ain.

Ein dymuniadau gorau i'r tri phâr a'u teuluoedd.

## TRIP Y GADWYN

Oherwydd y bwlch yn ystod gwyliau'r haf, mae'n anorfod bod ambell hanesyn yn hwyr yn cael ei argraffu, ond rhaid cofnodi Trip y Gadwyn ddiweddd Mai, sef trip Cymdeithas Aelodau Salem, Treganna gydag RHW Tours. Dechreuodd yn y tiwb yn Nociau Dinas Caerdydd lle mae model o'r ddinas fel y bydd. Yna aethpwyd i weld yr oleulong sydd wedi'i hangori gerllaw'r ganolfan ymwelwyr. Fe fu hon am flynyddoedd yn goleuo creigiau i rybuddio morwyr ond erbyn hyn mae ei goleuni'n fwy delweddol gan ei bod mwyach yn ganolfan Gristnogol. Cyn mynd adre rhaid oedd troi i fan enwog arall yn y dociau i gael gwledd nodedig o sgod a sglod a phawb yn bendant i'r trip fod yn un bythgofiadwy.

## PEN-BLWYDD YN 90 OED

Llongyfarchion i Mrs Eirene Anthony Davies, Windermere Avenue, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Mae'r *Dinesydd* yn deall iddi gael parti mawr yn ei chartre. Ymlaen at y cant yn awr.



Rhai o ferched y Tabernacl ym mharti pen-blwydd Mrs Eirene Anthony Davies.
*Yn sefyll:* Mrs Margaret Mostyn Jones, Mrs Mary Thomas, Mrs Kit Boobier, Mrs Eirene Anthony Davies, Mrs Glenys Morris, Mrs Megan Jones, Mrs Beryl Evans, Mrs Mair Walters.
*Yn eistedd:* Mrs Megan Phillips, Mrs E. M. Rees, Mrs Susie Evans, Mrs Gertie Roberts.
*Llun: Robin Griffith*

## CWMNI'R GADWYN


John Evans a Catherine Edwards yn *Pam Picil*

Rhyw bymtheng mlynedd yn ôl sefydlwyd cymdeithas ddrama Gymraeg yn Radur dan yr enw Cwmni'r Gadwyn. Oddi ar hynny mae'r cwmni wedi perfformio deuddeg drama ac wedi rhoi sawl noson o ddarlleniadau amrywiaethol i wahanol gymdeithasau llenyddol.

Ysgrifennwyd un o'r dramâu, *Cyffro ar y Costa*, gan gynhyrchydd y cwmni, Emyr Edwards a mawr fu'r sbort wrth i'r cynulleidfaoedd adnabod aelodau'r cast, yn arbennig rhai o'r dynion yn eu shorts!

Yn y pegwn arall, bu'r cwmni'n perfformio nifer o glasuron, hen a diweddar, fel arfer yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar wahoddiad pwyllgor drama'r Eisteddfod. Ymhlith y perfformiadau mwyaf llwyddiannus roedd *Amadews* yng Nghasnewydd, *Diwedd y Daith* ('Death of a Salesman') yng Nghwm Rhymni, *Y Tad* yn Ne Powys, *Gelyn y Bobl* yn Nyffryn Conwy a *Tartwff* yn Aberystwyth.

Dros y blynyddoedd bu'n agos at hanner cant o bobl yn cyfrannu at gynyrchiadau'r cwmni, ar y llwyfan ac yn y cefndir. O blith y rhain rhaid tynnu sylw arbennig at y diweddar Hywel Lloyd Evans, trysorydd darbodus y cwmni a llawer iawn rhagor. Codi a symud y set, goruchwylio'r offer, gweithio'r golau - a llawer o ddyletswyddau eraill; bu cyfraniad Lloyd yn amhrisiadwy a bu ei golli yn ergyd enbyd i'r cwmni.


Aled Gwyn, Cliff Jones, Dylan Griffiths a Seth Edwards yn *Brad*

Bellach mae Cwmni'r Gadwyn ar fin ailymgynnull gyda golwg ar lwyfannu drama ym 1997. Mae ar y cwmni ddirfawr angen rhywun neu rywrai i lenwi'r bwlch a adawyd gan Lloyd. Bydd croeso hefyd i actorion newydd. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â'r cynhyrchydd, Emyr Edwards, ar Gaerdydd 843855 neu'r ysgrifennydd, Philip Wyn Jones, ar Gaerdydd 565998.

## DWYLO DROS Y MÔR

O dan adain Operation Friendship bu 70 o Americanwyr ifanc o daleithiau Massachusetts ac Indiana gyda'u harweinydd, Lorraine Poll, yn treulio tair wythnos gydag ieuenctid yma yn y ddinas. Dyma'r pumed grŵp i ymweld â ni yn y cynllun hwn. Y flwyddyn nesaf bydd y bobl ieuanc a'u croesawodd i'w cartrefi yn mynd i America.
Cawsant digon o gyfle i grwydro yn ogystal â phrofi'r hwyl Cymreig ar ein haelwydydd. Trefnir y gangen yng Nghaerdydd gan Heol y Crwys. Mae cangen arall ym Môn ac yn Y Bala.

## CRONFA GOFFA MRS BUDDUG LLOYD

Mae Cronfa Goffa Mrs Buddug Lloyd wedi codi i £1,600, y cyfan yn mynd i Holme Tower. Roedd grŵp Merched y Crwys yn arfer trefnu Te Mefus yng nghartref Buddug bob haf i godi arian at elusennau. Ar wahoddiad caredig Mr John Lloyd trefnwyd te arall ddiwedd Mehefin.
Cafwyd diwrnod wrth fodd pawb, yr haul yn gwenu a'r dyrfa'n niferus. Codwyd £550, fel bo'r gronfa'n cyrraedd £2,000.

# NEWYDDION YR URDD

## JAMBORI YR URDD, DE MORGANNWG



Yn ystod mis Gorffennaf trefnwyd Jambori yng nghwmni Martyn Geraint a'r band yn neuadd chwaraeon Coleg Cyncoed, ar gyfer aelodau'r Urdd yn Ne Morgannwg. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r Jambori gael ei drefnu ar gyfer ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg y Sir. Ymunodd dros 1300 o blant yn y canu o ysgolion Coed y Gof, Mynydd Bychan, Y Wern, Iolo Morganwg, Bro Eirwg, Pen y Garth, Lansdowne, Glyncoed, Rhiwbina, St. Andrews, Victoria, Palmerston, Ton yr Ywen, St. Ffransis a Draenen Pen-y-graig *(Thornhill)*. Uchafbwynt y bore oedd ymddangosiad Derwyn Jones, chwaraewr Rygbi Caerdydd a Chymru, tra oedd y plant yn canu 'Sosban Fach'.

## ~ NOSON I'CH DYDDIADUR ~

Canol Y Ffordd

*yn cyflwyno*

**Y Brodyr Gregory**

**Beth Robert • Martyn Geraint**

**a Ieuan Rhys**

**• CANOLFAN YR URDD, CAERDYDD •**

**• NOS WENER, MEDI 27 1996 • 7.30pm**

**Tocynnau £5.50 (£2.50 i blant)**

**Bar ar gael!**

## MAE ANGEN EICH HELP YN Y GANOLFAN!

Bu Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, yn fwrlwm o weithgarwch Cymraeg amrywiol yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae llawer o blant a phobl ifainc wedi elwa o'r gweithgarwch yma. Efallai i chi gofio eich dydddiau chi yno neu hwyrach bod eich plant yn mynd yno erbyn hyn!

Ta beth, mae Siân Jobbins, Swyddog Datblygu'r Urdd yn Ne Morgannwg, wedi paratoi rhaglen ddiddorol at y flwyddyn nesa ac mae hi'n edrych ymlaen at groesawu plant a phobl ifainc o bob oed i'r Ganolfan.

Mae angen pobl i wasanaethu ar bwyllgor rheoli'r Ganolfan - i gynorthwyo Siân gyda'r gwaith trefnu ac i ofalu am gynnal yr adeilad. Os oes diddordeb gennych chi mewn helpu, peidiwch â bod yn swil nac eistedd yn ôl yn eich cadair freichiau, dewch i gyfarfod cyffredinol blynyddol y Ganolfan am 7.30pm nos Lun, 7 Hydref.

## TRIP YR URDD I 'LEGO LAND'

Yn ystod mis Awst trefnwyd trip gan yr Urdd i Lego Land yn Windsor. Mae'r Parc yn enfawr ac yn cynnig amrywiaeth eang o atyniadau ar gyfer plant. Roedd cyfle i edrych o gwmpas 'Miniland', cael prawf gyrru ar geir oedd wedi eu gwneud allan o lego yn 'Lego Traffic', mynd ar yr atyniadau fel 'Amazing Mazes', 'Spinning Spider', 'Rat Trap' ar 'Pirate Falls' a hefyd eistedd i lawr a gwylio sioeau yn yr 'Imagination Theatre' a'r 'Brickadilly Show'.

Cafwyd diwrnod prysur iawn ac hoffai'r Urdd ddiolch i blant o ysgolion Treganna, Melin Gruffydd, Pen-cae, Bro Eirwg a'r Wern am eu hymddygiad aeddfed yn ystod y diwrnod. Dyma lun o rai ohonynt islaw.




## ~ DYDDIADAU PWYSIG ~

**CLWB PÊL-DROED**
Yn ailddechrau ddydd Sadwrn, 7 Medi ar Gaeau Llandaf.
**Blwyddyn 1 & 2**
9.00 - 10.00am
**Blwyddyn 3, 4, 5 & 6**
10.00 - 11.00am

**CLWB-PÊLRWYD**
Yn ailddechrau ddydd Sadwrn, 14 Medi yn y Ganolfan
**Merched blwyddyn 3, 4, 5 & 6**
10.00 - 11.00am

**CLWB GYMNASTEG**
Yn ailddechrau nos Wener, 27 Medi yn Ysgol Glantaf
**Bechgyn a merched blwyddyn 3, 4, 5 & 6**
4.55pm - 5.55pm

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG dan ofal B.D. Harries

# YSGOL Y WERN

## Tennis Byr - Y Tîm Buddugol

Ar 3 Mehefin aeth tîm tennis Y Wern i Ysgol Gadeiriol Llandaf i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Tennis Byr Sir Gaerdydd. Ar ôl diwrnod hir o chwarae tennis, enillodd y tîm yn erbyn naw ysgol arall ac yna aethant ymlaen i chwarae yn erbyn enillwyr y Fro ar 17 Mehefin.

Enillodd y tîm eto o blith ysgolion Sir Bro Morgannwg a Chaerdydd i gyrraedd rownd derfynol De Cymru yng Nghastell-nedd ar 19 Mehefin. Unwaith eto, cafodd y tîm ddiwrnod caled a chyffrous iawn o chwarae safon uchel o dennis yn erbyn timoedd o Dde Cymru i gyrraedd rownd yr wyth olaf. Dyma sêr Wimbledon y dyfodol efallai - pwy a ŵyr?



O'r chwith - Owain Prys Thomas, Rhys Davies, Gareth East, Alice Reed.

## Ymweliad Blwyddyn 3 â Sain Ffagan

Ar ddydd Mercher gwlyb ym mis Mai, fe aethon ni, flwyddyn tri, Ysgol y Wern i Sain Ffagan. Fe welson ni lawer o hen dai, y gofaint, moch a defaid. Fe ddarganfyddon ni sut roedd pobl yn byw flynyddoedd maith yn ôl. Fe ddaethon ar draws melin ddŵr a oedd yn troi maen i wneud blawd allan o ŷd. Yn ogystal fe welon ni hen ffermdy o Ganolbarth Cymru, lle roedd y teulu a'r anifeiliaid yn byw o dan yr un to, a hefyd hen gapel, hen ysgol a hen bopty. Yna fe ddaethon i brif bwrpas ein trip sef y Pentref Celtaidd.

Pan gerddon ni i mewn i'r pentref, y peth cyntaf a wnaethon ni oedd bangorwaith. Roedd darn hir o bren a darnau cryf o bren yn y canol. Plethon ni ddarnau o bren hyblyg i mewn a mâs o'r pren byr a gwneud rhyw fath o gât isel iawn. Wedyn aethon ni i weld pwll bach yn llawn mwd a thail. Fe gymysgon ni'r mwd gan gerdded drwyddo gyda'n hesgidiau glaw. Ar ôl hynny, fe wisgon ni fenig plastig a chario'r dŵr oedd yn llawn mwd a thail a'i wasgu ar y bangorwaith.

Ein hoff beth yno oedd nyddu. Fe wnaethon ni freichledau a modrwyon gwyrdd a phorffor. Yna fe ddysgon sut i falu ŷd i wneud blawd. Roedd darnau o gerrig mân yn y bara a fyddai'n torri dannedd y Celtiaid. Hefyd fe welson ni dariannau a chleddyf Celtaidd. Fe wnaethon ni helpu gynnu tân gyda darnau o bren. Cawsom hwyl yn y Pentref Celtaidd.

**Ffion Cleverly** **Owain Thomas**
**Rhys Hughes** Blwyddyn 3

## Blwyddyn 5 yn ymweld â Techniquest

Ar fore dydd Mawrth braf ym mis Mai fe gychwynnodd Blwyddyn 5 Ysgol y Wern am hanner awr wedi naw ar daith i Techniquest. Pan gyrhaeddon ni yr adeilad, daeth menyw i'n croesawu ni a dweud y rheolau wrthyn ni. Y rheolau oedd 'Dim Rhedeg' a 'Dim Gweiddi'. Yna fe wnaeth y fenyw ein harwain i mewn i'r adeilad i hongian ein cotiau i fyny. Wedyn fe gawsom ryddid i weld yr arddangosfeydd.

Fy hoff rai oedd y ddrysfa ddrych, roedd e'n hwyl fawr yn trio dod o hyd i'r allanfa yno. Roedd arddangosfa gwneud cartŵn yna hefyd. Roeddech chi'n symud y ffigurau, ac ar ôl pob symudiad, gwasgu botwm i dynnu'r llun. Pan ydych chi wedi gorffen mae'r cartŵn yn dod lan ar y sgrîn.

Fe aethon ni i mewn i adran y planedau i gael darlith am y gofod. Yn gyntaf fe wnaethon ni sôn am Gysawd yr Haul a dywedodd y dyn oedd yn siarad gyda ni am y planedau a'r comedau a gwregys yr asteraid. Yna fe aethon ymlaen i weld y sêr a'r cytserau sêr. Roedd cytser sêr o'r enw Orion, y rhyfelwr. Cytserau sêr eraill a welon oedd Sirius, ci Orion a Taurus, tarw Orion. Fe ddysgon ni lawer am y gofod yna. Fe gychwynnon ar ein taith nôl i'r ysgol am 1.30. Roedd e wedi bod yn fore gwych.

**Dafydd Franklin** Blwyddyn 5

## Cystadleuaeth Criced Ysgolion Cynradd Caerdydd

Cyrhaeddodd y tîm Erddi Soffia tua chwarter i ddeg. Roeddwn i a fy ffrindiau yn adnabod llawer iawn o'r plant yna. Ar ôl i Mr. Price, y dyn oedd yn edrych ar ôl pob peth, siarad gyda ni, chwaraeom Ysgol Coed Glas ac fe enillon ni o un deg tri rhediad. Yna chwaraeon Ysgol Glan yr Afon a chollon. Ein gêm nesaf oedd yn erbyn Grangetown ac roedd yn rhaid ennill hon neu doedden ni ddim yn gallu mynd trwyddo i'r rownd nesaf. Roedd y gêm yn teimlo'n hir ond yn gyffrous, ond yn y diwedd enillodd Grangetown. Yr oedd yn agos. Tra oeddwn i yn sefyll ar y cae, teimlais yn gyffrous gan fy mod yn methu credu mai fan hyn oedd Tîm Criced Morgannwg yn chwarae. Ar ddiwedd y dydd roedden ni i gyd wedi mwynhau ein hunain. Daeth y tîm yn drydydd yn y grŵp.

**Cai Pritchard** Blwyddyn 6

## Ymweliad â phentref Llanisien

Aeth Blwyddyn 4 o Ysgol y Wern i ymweld â phentref Llanisien. Cerddom o'r ysgol i'r pentref, a'r peth cyntaf a welsom oedd Eglwys Sant Isan, sef y sant a sefydlodd Llanisien. Sylwom fod yna hen sied telegraff ar ffordd 'Cwrt Llanisien' tu ôl i swyddfa'r post. Amser maith yn ôl roedd yna gylchfan yn Llanisien ac roedd yna ddau fwthyn arno. Gwelsom dair siop-drin-gwallt yn y pentref a dau optegydd ac roedd un ohonynt yn arfer bod yn hen ysgol. Roedd yno siopau o bob math - cigydd a phobydd, banc Nat-West a Barclays, swyddfa bost a llawer mwy. Mwynheuom yn fawr iawn ac mae'n werth i bawb weld pentre Llanisien!

**Steffan Messenger** **Nerys Williams**
**Naomi Southern** **Alun Johnson**
Blwyddyn 4

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Y Bêl Hirgron

*Bu **Selwyn Lewis** yn ddyfarnwr rhyngwladol ac mae ef wedi bod yn agos at y gêm trwy'i oes - yn dilyn Caerdydd yn bennaf yn y blynyddoedd diwethaf. Anfonodd ragolwg ar y tymor atom:*

Dyma ni ar drothwy tymor rygbi newydd. A beth sydd o'n blaen, tybed - llwyddiant?

Mae 'na nifer o newidiadau wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf, a'r gêm wedi mynd yn broffesiynol. Bydd buddsoddiad enfawr wedi galluogi Caerdydd i brynu nifer o chwaraewyr newydd ac felly mae'n debyg y cawn dymor llwyddiannus ar Barc yr Arfau.

Ond, yn anffodus, dyw hynny ddim o anghenraid yn meddwl y cawn ni dîm cenedlaethol llwyddiannus. Bydd y drefn newydd yn golygu mai dim ond rhyw dri neu bedwar o'r clybiau fydd â thimau cryfion, ac fe fydd gwahaniaeth mawr rhwng eu safonau nhw a safonau'r clybiau eraill. Ydych chi'n credu y bydd hynny o les i dîm Cymru? Na! Bydd gan y clwb lleol yng Nghaerdydd, er enghraifft, ryw un ar hugain neu ragor o chwaraewyr rhyngwladol ar eu llyfrau (a'u cyflogau, mae'n debyg, yn costio tri chwarter miliwn o bunnau y flwyddyn!) a hynny'n golygu y bydd, man lleiaf, rhyw chwech ohonynt heb gêm ar ddydd Sadwrn. A'r system newydd yn gwneud i dimau fel Pontypŵl, Aberafan, Trecelyn, Pen-y-bont ac eraill golli eu chwaraewyr gorau i'r clybiau ariannog. Meddyliwch am y chwaraewyr enwog sydd wedi deillio o'r clybiau hynny yn y gorffennol - rhestr hir, ddiderfyn ohonynt. Ac fe fydd lwyddiant tîm Cymru yn y pen draw yn dibynnu ar gael y clybiau hynny'n gryf unwaith eto, gyda'r Undeb Rygbi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn gofalu y cânt gadw eu chwaraewyr gorau, y rhai y byddant wedi gwario eu harian a'u hamser yn eu datblygu.

Beth am deyrngarwch, tybed? Cas chwaraewr na charo'r clwb a'i maco?

## Y Bêl Fach Wen

**Cymdeithas Golff y Ddinas**

Bu golffwyr Cymraeg y Ddinas yn dathlu pum mlynedd o fodolaeth y gymdeithas y Gwanwyn diwethaf. Ymwelodd y gymdeithas â Chlwb Golff Glyn-hir ger Llandybïe ar 19 Ebrill. Enillwyd cystadleuaeth Tlws y Gwanwyn, a noddwyd gan Hugh James Cyfreithwyr, gan y pensaer o Lys-faen, Gareth James.

Dychwelodd nifer o aelodau'r gymdeithas i Glyn-hir ddechrau Awst i gystadlu yng Nghystadleuaeth Golff yr Eisteddfod. Braf ydyw cofnodi'r ffaith mai un o gyd-drefnwyr y Gymdeithas, sef Ceri Preece, a ddaeth yn ail. Gwell lwc yn y Bala flwyddyn nesaf!

Cafwyd cystadleuaeth dda gyda'r cyfnos ym Mehefin ar gwrs Bro Morgannwg, Hensol, a'r enillydd y tro hwnnw ydoedd Wyn Mears.

Bydd cystadleuaeth Tlws yr Hydref, a noddir gan Celtic Henderson Crossthwaite, yn cael ei threfnu gan Dafydd Hampson-Jones. Gobeithir cynnal y gystadleuaeth tua diwedd wythnos hanner tymor yr Hydref ar gwrs Woodlake Park ger Llandegfedd.

Os oes diddordeb gan unrhyw olffiwr/aig Cymraeg ei (h)iaith ymuno yn y cystadlu a'r gwmnïaeth, cysyllter â naill ai Ceri Preece (224871 est. 2228) neu Dafydd Hampson-Jones (394021). Mae croeso i ddysgwyr y Gymraeg a Golff!

**Ceri Preece**

**Erfyniaf arnoch anfon ataf unrhyw newyddion neu hanesion am eich clwb yn gynnar yn y mis....Thomas Davies, Ffôn/Ffacs: 564540**

## LLWYDDIANT MEWN ARHOLIADAU



Mae nifer o ddinasyddion ifanc Caerdydd wedi cael llwyddiant mewn arholiadau prifysgol eleni. Byddai'r *Dinesydd* yn falch cael clywed amdanynt. Roeddem yn hapus clywed i Rhys Owen, Cyncoed, ennill gradd BA yn y Coleg Normal. Mae'n mynd i aros yno am flwyddyn arall i ddilyn cwrs ymarfer dysgu. Fe wnaeth Dafydd Wiliam, Llandaf yn rhyfeddol o dda ym Mhrifysgol Reading gan ennill gradd BA mewn Archaeoleg. Enillodd Geraint Williams, Y Mynydd Bychan, radd BA yn y Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth. Mae'n mynd i barhau yn y coleg i ddarllen am radd uwch. Aeth Manon Humphreys, Llandaf i Brifysgol Caerwysg i ennill gradd B.Sc. anrhydeddus. Pobl lwc iddyn nhw i gyd yn y dyfodol.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

## *Shwmae eto!*

Ydych chi wedi **penderfynu** ble dych chi'n mynd i'ch dosbarth Cymraeg eto **eleni**? Mae digon o ddewis. Edrychwch am y llyfryn 'Welsh Courses in Cardiff and the Vale' yn eich **llyfrgell leol**. Wrth gwrs mae'r dyddiau pan oedd dysgwyr yn aros fel dysgwyr am flynyddoedd heb fod yn gallu siarad Cymraeg **wedi hen fynd** - **diolch i'r drefn!** Mae mwy a mwy o bobl yn mynd ymlaen bob blwyddyn yng Nghymru i siarad Cymraeg yn **rhugl** ac i **sefyll arholiadau** yn y Gymraeg. Eleni safodd 111 o **ymgeiswyr** yr arholiad Safon A i oedolion (Defnyddio'r Gymraeg Uwch). Fe basiodd pob un. Llongyfarchiadau iddyn nhw a'u tiwtoriaid.

Oherwydd bod cymaint o bobl wedi cyrraedd y safon hon mae mwy o gyrsiau **ar gael** eleni **trwy gyfrwng** y Gymraeg ar gyfer **dysgwyr profiadol** a **Chymry Cymraeg** nag erioed o'r blaen.

Ond dŷn ni wedi sylwi dros y blynyddoedd bod rhai pobl yn methu â dod yn rhugl achos eu bod yn **rhoi'r gorau** i'w dosbarthiadau. Fel arfer mae hyn yn digwydd achos eu bod nhw wedi colli sawl gwers, neu eu bod wedi methu deall un peth (eithaf bach fel arfer) ac yn teimlo yn rhy dwp i ofyn i'r tiwtor esbonio unwaith eto! Felly eleni mae modd cysylltu â fi ar y rhif isod a threfnu **sesiynau ymgynghori** (**sef** gwersi ychwanegol), **yn rhad ac am ddim, er mwyn iddynt gael dal i fyny** â gweddill y dosbarth.

Os ydych am fwy o wybodaeth am ddosbarthiadau, cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, sesiynau ymgynghori, ysgolion undydd yn eich ardal - neu dim ond sgwrs fach am rywbeth sydd yn eich poeni chi - ffoniwch fi ar Gaerdydd 250418 neu 250250.

Gill Stephen
Tiwtor-Drefnydd (Cymraeg i Oedolion) Consortiwm Caerdydd a'r Fro


### GEIRFA

**penderfynu** - to decide
**llyfrgell leol** - local library
**diolch i'r drefn!** - thank goodness!
**sefyll arholiadau** - to sit an examination
**ymgeiswyr** - candidates
**trwy gyfrwng** - through the medium of
**dysgwyr profiadol** - advanced learners
**Cymry Cymraeg** - Welsh speakers
**sesiynau ymgynghori** - counselling sessions
**sef** - that is to say
**er mwyn iddynt gael dal i fyny** - in order to catch up
**eleni** - this year
**wedi hen fynd** - are long gone
**rhugl** - fluent
**ar gael** - available
**rhoi'r gorau** - to give up
**yn rhad ac am ddim** - for free

Y gystadleuaeth y mis diwethaf oedd cyfieithiad o
'If at first you dont succeed, try, try again'.
*Yr ateb yw*
**'Dyfal donc a dyr y garreg'**
Bydd enwau enillwyr mis 'ma yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd*.

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn pôs yw ein cystadleuaeth
**'Pa lythyren o'r wyddor sydd yn bell, bell i ffwrdd?'**
yn Gymraeg? Does dim eisiau cyfieithiad gair am air.
Mae **Coleg Glan Hafren** yn cynnig 'Pecyn Dychwelyd i'r Dosbarth' (sef pecyn o angenrheidiau ar gyfer mynd yn ôl at eich dosbarth ar ôl yr haf hir - ffeil, papur, pensiliau, pren mesur, ayb) i'r person cyntaf gyda'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf i nawr ar gerdyn post gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw Coleg Glan Hafren, 35 Y Parêd, CAERDYDD CF2 3AD



Y Croesair gan Simon Cudicio, Canolfan Iaith Acen

**AR DRAWS**
1 BEFORE LONG (3-2-3)
4 COME (2)
6 READ (6)
7 HALL (5)
8 LAUGH (7)
9 POLICE (5)
10 APPLE (4)
13 EXCELLENT (6)
15 NAKED (4)
16 AWFUL (7)

**I LAWR**
1 CHAIR (6)
2 STRENGTH (4)
3 BECAUSE (7)
4 TWO (3)
5 INTERESTING (7)
7 NIECE (3)
9 LEISURE (6)
10 KEY (5)
11 FREQUENT (3)
12 TO ACT (5)
14 ABOVE (4)
15 GAS (3)

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO

**Pob bore Llun** 9.30 - 11.30am
Clwb Coffi y Fro, Wesley Court, Dinas Powys
Ffoniwch Christine Franks 01222 513046

**Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm
Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426

**Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm
Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd
Ffoniwch Christine Franks 513046

**Pob dydd Gwener** Amser cinio
Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn y Bont-faen.

**Pob bore Sadwrn** 10.45am
Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593

**Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm
Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd.
Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach

**Unwaith y mis**
Clwb Siarad y Barri, Canolfan Palmerston
Ffoniwch Christine Franks 513046

**Yn ôl y galw**
Cymorthfeydd - Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau, Ffoniwch Gill Stephen 01222 250250
(Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion)

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

## Y daith rydych wedi'i gohirio ers blynyddoedd ...

*Peidiwch ag oedi rhagor:*

PATAGONIA -mae'n fwy na gwlad,
mae'n fwy na breuddwyd -
mae'n brofiad heb ei ail.

Taith 17 Hydref - 5 Tachwedd 1996

Teithiwch, heb ofal yn y byd, gyda threfnwyr sy'n gwybod am y tir, yr hanes, y traddodiadau a'r wlad fel ag y mae heddiw.

Am fanylion, cysylltwch ag Elvey MacDonald,
Gaiman, Ffordd Ddewi, Aberystwyth, Dyfed SY23 1EU
01970 624766 ar y penwythnosau

**PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES**
**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***
*(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)*

***Gwasanaethau Busnes***

***Gwasanaethau Cyfrifiadurol***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch :**
**Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute,**
**Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**

## CHRIS JONES

*Gŵr Camera :: Cyflwynydd*

***ar liwt ei hun***

Mae **Chris Jones**, un o gyflwynwyr y Tywydd ar S4C, yn ogystal â rhaglenni amrywiol eraill, yn troi'n gwbl *freelance* ar ôl gweithio i gwmni teledu corfforaethol Merlin am ddeng mlynedd fel gŵr camera a chynhyrchydd / gyfarwyddwr.

Y bwriad a'r gobaith yw gweithio fwy a mwy yn y Gymraeg i gynhyrchwyr rhaglenni ar gyfer S4C.

Am fanylion a gwybodaeth bellach, cysyllter â CHRIS JONES ar 01222 616999; 01222 494777, neu ar mobeil 0385 566945; ffacs 01222 493111

## Angen Trefnydd Brwdfrydig yn Eglwys Salem

Mae adeg y gwyliau wedi dod i ben a rhaid 'nawr ail gydio yng ngwaith yr eglwys gydag ysbryd newydd wedi'r ysbaid.

Mae Capel Salem, Treganna yn trefnu Clwb i blant o 7 i 12 oed i gyfarfod pob nos Wener am awr rhwng chwech a saith o'r gloch.

Rydym y chwilio am Drefnydd brwdfydig i fod yn gyfrifol am redeg y Clwb ac i gynorthwyo gyda'r Clwb Ieuenctid sy'n cyfarfod unwaith y mis ar nos Wener rhwng saith a naw o'r gloch.

Cynigir hyd at £200 am gyfnod arbrofol rhwng Medi a Rhagfyr i berson ifanc sydd â phrofiad/cymwysterau o weithio gyda phlant a phobl ifanc ag ymrwymiad Cristnogol.


*Am wybodaeth pellach cysyllter â'r Ysgrifennydd, 17 West Orchard Crescent, Llandaf, Caerdydd. CF5 1AR neu'r Gweinidog ar 01222 212760*

## MATHEMATEG

***Tiwtor graddedig a phrofiadol iawn.***

*Ffôn: Caerdydd 498195*

## Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd



**Celf Grêt. Hanes Grêt.**

**Gwyddoniaeth Grêt.**

**A dydd arbennig i'r holl deulu**

***Ffôn: 01222 397951***

**Swydd Ddatblygu - Cymraeg i Oedolion**

**Graddfa Cyflog - £15,132 pro rata**

**Cytundeb dros dro am flwyddyn**

**I ddechrau cyn gynted ag sy'n bosibl**

Fel rhan o raglen ddatblygu Dysgu Cymraeg i Oedolion Gwent, mae Coleg Trydyddol Gwent, ar ran Consortiwm Cymraeg i Oedolion Gwent, yn gwahodd ceisiadau am y swydd uchod. Mae'n bosibl y gellid cynnig oriau dysgu ychwanegol i'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Cymraeg yn y Gweithle - 2 ddiwrnod yr wythnos**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymchwilio, darparu gwybodaeth a datblygu'n bellach y cyfleoedd ar gyfer Cymraeg yn y gweithle gan weithio'n agos â chyflogwr lleol i gynyddu'r ddarpariaeth bwysig hon.

Bydd y swydd, a leolir yng Nghampws Coleg Crosskeys, yn cynnwys cryn deithio. Telir lwfans am hyn.

Am ffurflen gais, dylid anfon amlen fawr wedi'i chyfeirio a stamp. Dylid dychwelyd y ffurflen gais ynghyd â llythyr yn Gymraeg yn cefnogi'ch cais at :

Y Cyfarwyddwr Personél, Coleg Trydyddol Gwent, The Rhadyr, Brynbuga, NP5 1XJ

Am fanylion pellach, cysyllter â ***Geraint Wilson-Price, 01873/855221***

**DYDDIAD CAU : 16 MEDI 1996**

## GWEITHIWR/WRAIG DATBLYGU LLENYDDIAETH YN Y GYMUNED (RHAN-AMSER)

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd, yn chwilio am rywun brwdfrydig i ddatblygu ei waith ym maes hyrwyddo digwyddiadau llenyddol.

Cynigir cytundeb am ddwy flynedd yn y lle cyntaf, ar delerau ymgynghorydd annibynnol. Lleolir y swydd yng Ngwynedd.

Ceir rhagor o wybodaeth gan :

Yr Adran Lenyddiaeth
Cyngor Celfyddydau Cymru
Stryd yr Amgueddfa
CAERDYDD
CF1 3NX

Ffôn : 01222 394711
Ffacs : 01222 221447

## Cynorthwy-ydd Masnachu

*(Dwy swydd: un amser-llawn ac un rhan-amser)*

Mae angen Cynorthwy-yddion Masnachu cyn gynted â phosibl ar Wasg Prifysgol Cymru, cyyhoeddwyr llyfrau a chylchgronau addysgiadol mwyaf Cymru. Mae'r gwaith yn ymwneud yn bennaf â mewnosod anfonebau a gweinyddu system tanysgrifio'r cylchgronau.

*Cyflog: £8,610 (35 awr amser-llawn) a £4,920 (20 awr rhan-amser). Lwfans gwyliau da. Dyddiad cau: 16 Medi 1996.*

*Ceir manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth Sandra McAllister, Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd. CF2 4YD*

*Ffôn: 01222-231919 Ffacs: 01222-230908*

**ESIS** EDUCATIO SUPPORT AND INSPECTION SERVICE
GWASANAETH CEFNOGI AC AROLYGU YSGOLION

## Athro Bro/Athrawes Fro

Y mae ESIS angen, cyn gynted â phosibl, athro cynradd neu athrawes gynradd ymrwymedig a brwdfrydig i ymuno â thîm llwyddiannus yr Athrawon Bro er mwyn estyn cefnogaeth a chymorth gydag addysgu Cymraeg Ail Iaith yn ysgolion cynradd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili, Pen-y-Bont, Merthyr Tudful a Rhondda-Cynon-Taf.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fedru arddangos cryn ddawn i addysgu Cymraeg Ail Iaith yn yr ystafell ddosbarth, rhoi cyngor i gydlynwyr iaith, cydweithio gydag athrawon a'u cynorthwyo i adolygu polisïau a chynlluniau gwaith, rhoi cyngor ar ddulliau asesu a dangos sut y gellir defnyddio adnoddau addysgu ail iaith yn effeithiol.

Ystyrir secondiad os cytuna'r Bwrdd Llywodraethol yr ysgol â hynny.

Gan fod cyfundrefn yr Athrawon Bro yn cael ei ariannu'n flynyddol gan grant Adran 21 y Swyddfa Gymreig, ni ellir ond cynnig y swydd tan 31 Mawrth 1997 yn y lle cyntaf.

Dylid dychwelyd y ffurflenni cais i'r swyddfa erbyn yr 20 Medi 1996. Gellir cael y ffurflenni ar ôl derbyn amlen wedi ei chyfeirio â'i stampio oddi wrth Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Adran Personel a Chefnogi Llywodraethwyr, Sunnyside, Penybont ar Ogwr, CF31 4AR

*Rydym yn rhwym i Gyfleoedd Cyfartal*

# YN GYMRAEG ...
# YNG NGHAERDYDD
# A'R FRO

## Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro

**~ MEDI 1996 ~**

Cyfeiriadur yw hwn a ddatblygwyd yn wreiddiol, trwy gydweithrediad rhwng CYD: De Morgannwg, Cwmni Surrexit a'r *Dinesydd*, i gyd-fynd â'r wyl lwyddiannus *Yn Gymraeg ... Yng Nghaerdydd a'r Fro*, a drefnwyd gan CYD: De Morgannwg yn Neuadd Dewi Sant yn Ionawr 1993.

Diwygiwyd y Cyfeiriadur yn drwyadl ar gyfer yr argraffiad hwn gan Ysgrifennydd Pwyllgor *y Dinesydd*, Mrs Julie Jones, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi a'r rhai a fu'n ei chynorthwyo am eu holl lafur yn y cyd-destun hwn.

Y gobaith yw cynhyrchu'r Cyfeiriadur yn flynyddol o hyn ymlaen fel atodiad yn rhifyn Medi o'r *Dinesydd*. Gofynnir, felly, i unrhyw un fydd am ddiwygio manylion cofnod neu ychwanegu cofnod newydd anfon at Ysgrifennydd Pwyllgor *Y Dinesydd* mewn da bryd ar gyfer hynny. Ei chyfeiriad yw 28 St. Francis Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1AW.

## ADDYSG

### MEITHRIN

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
Prif Swyddfa: 145 Albany Road, Caerdydd.
Ffôn: 01222 485510

***CYLCHOEDD MEITHRIN CAERDYDD***

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi':
Chris Jones, Swyddog Datblygu Caerdydd, ar 01222 464091 neu 01222 620788.

**Caerau**
Eglwys Saintwell, Heol Trelái
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
**Yr Eglwys Newydd**
Festri Capel y Methodistiaid, Kelston Road
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Glanyrafon**
Eglwys y Methodistiaid, Machen Place, Glanyrafon
Llun-Gwener 9.30-12.30
**Jac y Do**
Livesy Hall, Court Field, Llanisien
Llun-Gwener 8.55-11.55
**Llaneirwg**
Canolfan Addysg Cymunedol, Crickhowell Rd., Llaneirwg
Llun, Mawrth, Mercher, Gwener 9.00-12.00
**Llanisien**
Neuadd y Sgowtiaid, Tegfan Close, Llanisien
Llun-Gwener 9.00-12.00
**Llanrhymni**
Canolfan Ieuenctid Cae Castell, Llanrhymni
Llun, Mercher, Gwener 9.15-12.15
**Nant Lleucu**
Canolfan Howardian, Pen-y-lan
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Y Parc**
Capel Salem, Market Rd., Treganna
Llun-Gwener 9.10-11.40
Mawrth, Mercher, Iau, Gwener 1.00-3.00 p.m.
**Pontcanna**
Canolfan yr Urdd, Conway Rd.
Llun-Gwener 9.00-12.00
**Pentrebaen**
Canolfan Ieuenctid Waterhall, Pentrebane Rd., Tyllgoed
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Pen-twyn**
Canolfan Addysg i Oedolion, Pen-twyn
Mawrth, Iau, Gwener 9.15-12.15
**Radur**
Old Church Rooms, Park Rd., Radur
Llun-Iau 9.15-12.00
**Rhiwbina**
Neuadd Capel Bethel, Heol Maes y Deri
Llun-Gwener 9.00-12.00
Mercher-Gwener 1.00-3.00
**Treganna**
Canolfan Cymunedol Treganna
Llun-Gwener 9.30-12.00
Mercher, Iau, Gwener 9.30-12.00
Llun-Gwener 1.00-3.00 p.m.
**Trelái**
Bowling Green, Mill Rd., Trelái
Llun-Gwener 9.30-12.30
Llun a Mawrth 1.00-3.00
**Treoda**
Neuadd Capel Tabernacl, Merthyr Rd., Yr Eglwys Newydd
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Tŷ Coch**
Church of the Resurrection, Tŷ Coch Rd., Trelái
Llun-Gwener 1.00-3.15
**Tŷ'r Cymry**
11 Heol Gordon, Y Rhath
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.00-12.00
Llun, Mawrth, Iau 1.00-3.00

**Tyllgoed**
Fairwater Bowls Pavilion, Poplar Rd., Tyllgoed
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Y Waun**
Heath Citizens Hall, King George V Drive, Parc y Mynydd Bychan
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Ystum Taf**
Canolfan Ieuenctid, Bridge Road, Ystum Taf
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Cylch y Bronllwyn**
Neuadd y Pentref, Pen-tyrch
Llun-Iau 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Creigiau**
Canolfan Criced, Creigiau
Llun - Gwener 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Gwaelod-y-garth**
Llun-Gwener 9.15-12.00
Clwb Meithrin Llun-Gwener 1.00-3.00

### *CYLCHOEDD MEITHRIN Y FRO*

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi' y Fro:
Maryl Richards, Swyddog Datblygu Bro Morgannwg, ar 01656 653084.

**Llandŵ**
Neuadd y Pentref, Llandŵ
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Llanilltud Fawr**
Annexe yr Hen Ysgol, Llanilltud Fawr
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Y Bont-faen**
Drws nesaf i Ysgol Iolo Morganwg
Llun-Gwener 9.00-12.00

***Y Barri***
**Bethesda**
Gerddi Alexandra
Llun-Gwener 9.15-1.45
Llun, Mawrth, Gwener 1245-1500
**Heol y Llys**
YMCA, Court Rd.
Llun-Gwener 9.45-11.45
**Merthyr Dyfan**
Neuadd Hamdden Home View, Skomer Rd.
Llun-Gwener 9.15-11.45
**Cylch Pili Pala**
Canolfan Cymuned y Buttrills, North Walk
Mawrth-Gwener 1.15-3.00
**Plant Hapus**
Neuadd St. Nicholas, St. Nicholas Rd.
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Capel y Tabernacl,**
Sgwâr y Brenin.
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Cylch Tregatwg**
Canolfan Cymuned Parc Victoria
Llun-Gwener 9.30-12.00

**Cylch y Rhws**
Ystafelloedd Newid y Meysydd Chwarae, Heol Ceri
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
**Dinas Powys**
Neuadd Kynance
Llun, Mercher, Gwener 9.15-11.45

***Penarth***
Capel Bethel, Plassey Street
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Yr Enfys**
Neuadd Gymuned Glyndwr
Llun-Gwener 9.30-12.00

## CYNRADD

**Ysgol Bro Eirwg**
Ridgeway Rd., Tredelerch, Caerdydd
Ffôn: 01222 777124
**Pennaeth**: Glyn Evans

**Ysgol Gymraeg Coed y Gof**
Beechley Drive, Pentrebaen, Caerdydd
Ffôn: 01222 564585
**Pennaeth**: Arwel Peleg Williams

**Ysgol Iolo Morganwg**
Broadway, Y Bont-faen
Ffôn: 01446 772358
**Pennaeth**: Alan W. Jones

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 691247
**Pennaeth**: Gareth Evans

**Ysgol Mynydd Bychan**
New Zealand Rd., Cathays, Caerdydd
Ffôn: 01222 613417
**Pennaeth**: Susanne Smith

**Ysgol Pen-cae**
Highfields, Llandaf, Caerdydd
Ffôn: 01222 563851
**Pennaeth**: Eleri Jones

**Ysgol Sant Curig**
Ffordd y Coleg, Y Barri
Ffôn: 01446 420109
**Pennaeth**: Eleri Hourahane

**Ysgol Gymraeg Treganna**
Radnor Road, Treganna, Caerdydd
Ffôn: 01222 383887
**Pennaeth**: Rhys Harries

**Ysgol y Wern**
Ffordd Llangrannog, Llanisien, Caerdydd
Ffôn: 01222 762114
**Pennaeth**: Glesni Whettleton

**Yr Ysgol Gymraeg Newydd ar safle Fitzalan**
Rhodfa Lawrenny, Lecwydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 373453
**Athrawes Gyda Gofal**: Anne Roberts

**Ysgol Creigiau**
Creigiau, Caerdydd
Ffôn: 01222 891045
**Pennaeth**: Peter Evans

**Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth,**
Main Rd., Gwaelod-y-garth, Caerdydd
Ffôn: 01222 810489
**Pennaeth**: Gerwyn Williams

**Ysgol Gymraeg Pen-y-garth**
Heol Redlands, Penarth
Ffôn: 01222 700262
**Pennaeth**: Peter Davies

**Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
St. Paul's Avenue, Y Barri
Ffôn: 01446 735595
**Pennaeth**: Dulyn Griffiths

**Ysgol Gymraeg Newydd y Barri**
Ffordd Buttrills, Y Barri
**Athrawes Gyda Gofal**: Glenna Evans

## UWCHRADD

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf,
Caerdydd CF4 2JL
Ffôn: 01222 562879
**Prifathro**: Huw Thomas

# CAPELI AC EGLWYSI

**Bethel, Rhiwbina (Methodistiaid)**
Maes y Deri, Rhiwbina, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Pamela Cram
**Cyswllt**: Tamsin Llwyd Graves
Ffôn: 01222 484140
Oedfa: 10.15 am. Ysgol Sul 10.15 am
Clwb Ieuenctid: Nos Iau, 7.30 pm

**Bethel, Penarth (Annibynwyr)**
Stryd Plassey, Penarth
**Gweinidog**: Parchg. Meurwyn Williams
Ffôn: 01222 563219
Oedfa: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth (Annibynwyr)**
**Gweinidog**: Parchg. Ddr. T.J. Davies
Ffôn: 01222 843750
Oedfaon: 10.30am (a 5pm weithiau)

**Capel y Crwys (Presbyteriaid)**
Heol Richmond, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. W.I. Cynwil Williams
Ffôn: 01222 486457
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11am a 11.30 am

**Dewi Sant (Yr Eglwys yng Nghymru)**
Cilgant Sant Andreas, Caerdydd
**Ficer**: Parchg. Aled Edwards
Ffôn: 01222 751418
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Ebeneser (Annibynwyr)**
29 Heol Siarl, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ddr. Alun Tudur
Ffôn: 01222 490582
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.15 am

**Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Gwynn Williams
Ffôn: 01222 490687
Oedfaon: 10 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Yr Eglwys Undodaidd**
West Grove, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Eric Jones
Ffôn: 01685 873440
Oedfaon: 3.30 pm ar yr ail Sul o'r mis

**Capel Minny Street (Annibynwyr)**
Y Waun Ddyfal, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ieuan Davies
Ffôn: 01222 763251
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.20 am

**Salem (Presbyteriaid)**
Stryd y Farchnad, Treganna
**Gweinidog**: Parchg. D. Haydn Thomas
Ffôn: 01222 565105
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Tabernacl (Bedyddwyr)**
Yr Ais, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Denzil John
Ffôn: 01222 867769
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Tabernacl, Y Barri (Annibynwyr)**
Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Gweinidog**: Parchg. Beti-Wyn Davies
Ffôn: 01446 700121
Oedfaon: 11 am a 6pm. (4pm yn y gaeaf)

**Ysgol Sul Tabernacl, Yr Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Moelwyn Preece
Ffôn: 01222 611059
Ysgol Sul Gymraeg am 2.30 pm

## CHWARAEON

**Clwb Cadw'n Heini**
**Cyswllt**: Eirug Jenkins
Ffôn: 01222 616501
**Cyfarfod**: Nos Lun o fis Medi ymlaen yn Ysgol Gyfun Glantaf

**Clwb Criced Ifor Bach**
Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd
Ffôn: 01222 232199
**Cyswllt**: Robin Hughes
Ffôn: 01222 493808

**Clwb Cymric (Pêl-droed)**
**Cyswllt**: Ian Edwards
Ffôn: 01222 621697
**Cyfarfod**: Bob dydd Sadwrn ar ôl y gemau, Clwb Cameo, Pontcanna

**Clwb Nofio'r Cymry**
**Cyswllt**: Gaynor C Jones
Ffôn: 01222 627668
**Cyfarfod**: Nos Fawrth yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

**Clwb Pêl-droed Inter Tafarn**
**Cyswllt**: Gareth Huw
Ffôn: 01222 213288
**Cyfarfod**: Bob nos Iau, 6.30 tan 7.30 pm, ar gyrtiau tenis y Mynydd Bychan

**Clwb Rygbi Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: Steve Lloyd
Ffôn: 01222 228481
**Cyfarfod**: Bob nos Lun am 6.30 pm yn y Gampfa, Ysgol Glantaf Uchaf, Ystum Taf

**Clwb Rygbi Ieuenctid Caerdydd**
**Prif Hyfforddwr**: Huw Jones
Ffôn: 01222 842811
Amcanion: Clwb rygbi i blant 7-15 oed
**Cyfarfod**: Bore Sadwrn, 11.00 tan 12.00 ar feysydd Ysgol Glantaf Isaf, Tyllgoed

**Cymdeithas Golff y Ddinas**
**Cyswllt**: Ceri Preece ar 01222 224871 est. 2228 neu Dafydd Hampson-Jones ar 01222 394021
**Cyfarfod**: Cwrdd 3/4 gwaith y flwyddyn ar gyrsiau gwahanol.

## CYMRAEG I OEDOLION

**Adran Addysg Barhaol**
Prifysgol Cymru, Caerdydd,
38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB
Ffôn: 01222 874831/2
**Cyswllt**: Dr Gwenllian Awbery
Amcanion: Trefnu dosbarthiadau addysg oedolion, gan gynnwys Cymraeg fel ail iaith ar bob lefel.

**Awdurdod Addysg Caerdydd**
Cyrsiau i ddysgwyr o bob safon mewn amrywiol ganolfannau ledled y sir.
**Cyswllt**: Gill Stephen
Ffôn: 01222 481280 est. 236

**Canolfan Dysgu Cymraeg**
22 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3DQ
**Cyswllt**: Dr Robert Owen Jones
Ffôn: 01222 390980
Amcanion: Dysgu cyrsiau dwys ac uwch.
**Cyfarfod**: Rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau bob dydd o'r wythnos trwy gydol y flwyddyn, a chyrsiau preswyl a hyfforddi athrawon.

**Canolfan Iaith Acen**
Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont, Caerdydd
**Cyswllt**: Sian Merlys
Ffôn: 01222 665455
Amcanion: Dysgu cyrsiau o bob safon i oedolion. Clwb bob dydd Sadwrn am 11.00-2.00 ar gyfer ymarfer Cymraeg.

**Canolfan yr Urdd**
Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd
Ffôn: 01222 513046
**Cyfarfod**: Gwersi Cymraeg ar nos Lun 7-9 pm a dydd Iau 1-3 pm.

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Paul Leonard
Ffôn: 01222 452168
Amcanion: Dysgu Cymraeg ar bob lefel. Cyrsiau dwys i ddechreuwyr ac i ddysgwyr mwy profiadol ddwywaith y flwyddyn ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn.

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA)**
**Cyswllt**: Christine Franks
Ffôn: 01222 513046
Ysgolion Undydd a Chlwb Coffi yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**CYD Caerdydd a'r Fro**
Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (City Road), Y Rhath, Caerdydd
Amcanion: Dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd.
**Cyswllt**: Peter Bradley
Ffôn: 01222 763426
**Cyfarfod**: Bob nos Iau o 9.15 pm ymlaen tan stop-tap.

**CYD Pobl y Bont**
**Cyswllt**: Jeanne Crabb
Fflat 1, Tŷ Woodstock, Y Stryd Fawr, Y Bont-faen CF7 7AF
Ffôn: 01446 774452
**Cyfarfod**: Dydd Gwener yn Y Dug (Duke of Wellington) 12.00-2.00 pm. Dydd Mawrth mewn gwahanol dai am 10.00-12.00. Grwp sgwrsio anffurfiol. Gwibdeithiau. Wedi ei anelu at ddysgwyr a Chymry Cymraeg.

**YMCA Caerdydd**
Y Rhodfa, Caerdydd CF2 3AG
Ffôn: 01222 489101
**Cyswllt**: Maureen Ireland
Amcanion: Cymdeithas Gristnogol gyda pholisi cadarnhaol er hybu'r Gymraeg. Dosbarthiadau Cymraeg i bob lefel.

## GRWPIAU PWYSO

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Paul Leonard
Ffôn: 01222 452168
Amcanion: Ymgyrchu dros gyfartaledd i'r Gymraeg a dwyieithrwydd naturiol.
**Cyfarfod**: Cyfarfodydd Cell yn fisol ar nos Sul yn Nhŷ'r Cymry.

**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**
Amcanion: Hybu tyfiant addysg gyfrwng-Gymraeg.

**Cangen Caerdydd**
**Cyswllt**: Paul Morgan
50 Springwood, Llanedeyrn, Caerdydd
Ffôn: 01222 731211
Cyfarfod yn fisol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**Cangen y Fro**
**Cyswllt**: Adrian Lewis
46 Victoria Road, Penarth
Ffôn: 01222 702570
Cyfarfod yn fisol yn ystod y flwyddyn ysgol.

## HAMDDEN

**Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd**
**Cyswllt**: Idwal Hughes
Ffôn: 01222 623873
**Cyfarfod**: Bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 pm yn festri capel Minny Street. >

Trefnir cludiant mewn bws mini.
Siaradwyr a gweithgareddau gwahanol.

**Clwb Gwawr Caerdydd**
**Cyswllt**: Bethan ar 01222 843422
neu Ceri ar 01222 842315
**Cyfarfod**: Mewn gwahanol leoedd
ar y nos Iau gyntaf o bob mis o Fedi
i Orffennaf. Clwb i ferched. Amrywiol
weithgareddau.

**Clwb Ifor Bach**
11 Stryd Womanby, Caerdydd CF1 2BR
Ffôn: 01222 232199
Amcanion: Clwb cymdeithasol Cymraeg
i aelodau cofrestredig. Ar agor nos Wener a
nos Sadwrn. Adloniant bob penwythnos.
Cymdeithasau amrywiol.

**Côr Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwawr Owen
Ffôn: 01222 691924
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 7.30 pm
yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Côr Godre'r Garth**
**Cyswllt**: Penri Williams
Ffôn: 01222 890040
**Cyfarfod**: Nos Sul am 7.30 pm
yn Neuadd y Pentre, Efail Isaf.

**Côr Merched Canna**
**Cyswllt**: Delyth Medi Jones ar
01222 619934 neu Elspeth Hughes
ar 01222 554663
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.45 pm
yn Festri Capel Salem, Treganna.

**Côr Merched y Garth**
**Cyswllt**: Eleri Roberts
Ffôn: 01443 208211
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm
yng Nghapel Efailisaf.

**Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch**
**Cyswllt**: Dafydd Hampson Jones
Ffôn: 01222 394021
**Cyfarfod**: 5/6 gwaith y flwyddyn yn
y Churchills. Siaradwr gwadd.
Ciniawa anffurfiol bob mis.

**Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd**
**Cyswllt**: Ann Martin
Ffôn: 01222 492440
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm
yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Cwmni Drama'r Crwys**
**Cyswllt**: Bob Roberts
Ffôn: 01222 627903
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 7.30 pm.
yng Nghapel y Crwys, 77 Heol Richmond.

**Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur**
**Cyswllt**: Philip Wyn Jones
Ffôn: 01222 565998
**Cyfarfod**: Mannau ymarfer yn amrywio.
Perfformiadau yn Ysgol Gyfun Radur.

**Cwmni'r Gwter**
**Cyswllt**: Non Ellis Jones
Ffôn: 01222 563312
Amacanion: Gweithdy drama i blant.
**Cyfarfod**: Nos Lun o 4.30 - 8.30pm a nos
Iau o 4.30 - 8.30pm yng Nghanolfan yr Urdd,
Heol Conwy.

**Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: Tony Couch
Ffôn: 01222 753625
**Cyfarfod**: Nos Lun gyntaf o bob mis
ac eithrio Awst a Medi.
Siaradwr gwadd.

**Cylch Cinio Merched Caerdydd**
**Cyswllt**: Valmai Evans
Ffôn: 01222 612104
**Cyfarfod**: Pum cyfarfod blynyddol
ar yr ail nos Iau o fis Medi, Tachwedd,
Ionawr, Mawrth a Mai am 8.00 pm.
Cinio tri chwrs, a siaradwr gwadd.

**Cylch Cinio Merched y Barri**
**Cyswllt**: Eira Rowley
Ffôn: 01446 792801
**Cyfarfod**: Bob 6 wythnos am
7.30 pm yng Ngwesty'r Arth,
Y Bont-faen. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Cinio y Barri a'r Fro**
**Cyswllt**: Islwyn Jones
Ffôn: 01222 594533
**Cyfarfod**: Gwesty Mount Sorrell
nos Fercher ola'r mis am 7.30 pm.
Cymdeithasu. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**
**Cyswllt**: E Wyn James
Ffôn: 01222 628754
Amcanion: Hybu diddordeb ym mhob
agwedd ar fyd llyfrau.
**Cyfarfod**: Misol rhwng Medi a Mawrth
ar drydedd nos Wener y mis am 7.00 pm.

**Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd**
**Cyswllt**: Parchg. Ifor Rees
Ffôn: 01222 625785
**Cyfarfod**: Nos Wener gyntaf y mis
ac eithrio Ionawr.

**Cymdeithas Cymrodorion y Barri**
Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri,
Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Cyswllt**: John Williams
Ffôn: 01446 745620
**Cyfarfod**: Yn festri'r Capel ar y drydedd
nos Fawrth o'r mis am 7.15 pm, Medi - Mai.

**Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Megan Williams
Ffôn: 01222 628733
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis o
fis Hydref tan fis Mawrth yn neuadd
Capel Bethel, Yr Eglwys Newydd.

**Cymdeithas Cymry'r Wenallt**
**Cyswllt**: John Rees
Ffôn: 01222 482922
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis am
8.00 pm yng Nghlwb Rygbi'r
Eglwys Newydd o fis Hydref tan
fis Mai. Cymdeithas i ddynion.

**Cymdeithas Gymraeg Penarth**
**Cyswllt**: Parchg. Maxwell Evans
Ffôn: 01222 701963
**Cyfarfod**: Bob nos Fercher gyntaf y
mis o Hydref-Mai yng Nghapel Bethel,
Heol Plassey, Penarth.

**Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina**
**Cyswllt**: E. Haydn Jones
Ffôn: 01222 620487
**Cyfarfod**: Nos Lun gynta'r mis
yn Neuadd Eglwys Bethany,
Heol Llanisien Fach, Rhiwbina.

**Cymdeithas Wyddonol Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwen Jones ar 01222 563914
neu Rhys Morris ar 01222 666120
Amcanion: Hybu dealltwriaeth a
mwynhad o wyddoniaeth ymhlith
lleygwyr a gwyddonwyr.
**Cyfarfod**: Ail neu drydedd nos Lun y mis
o Hydref i Fai am 7.30 p.m. ym Mhrif
Adeilad Prifysgol Cymru, Caerdydd.

**Merched y Wawr, Bro Radur**
**Cyswllt**: Brenda Jones
Ffôn: 01222 842946
**Cyfarfod**: Nos Fercher gynta'r mis
o Fedi hyd Fehefin yn Neuadd
y Methodistiaid, Ffordd Windsor, Radur.

**Merched y Wawr, Caerdydd**
**Cyswllt**: Mair Elvet Thomas
Ffôn: 01222 382589
**Cyfarfod**: Yng Nghapel Minny Street,
Caerdydd ar ail nos Lun y mis o Fedi i
Fehefin/Gorffennaf. Un noson y
flwyddyn ar gyfer dysgwyr.

**Merched y Wawr, Y Barri**
**Cyswllt**: Nan Rees ar 01222 554555
neu Llywela Evans ar 01222 597464
**Cyfarfod**: Nos Fawrth gyntaf bob mis
Hydref- Ebrill yn Ysgol Sant Curig, Y Barri.

**Merched y Wawr, Y Bont-faen**
**Cyswllt**: Eira Rowley
Ffôn: 01446 792801
**Cyfarfod**: Ail nos Lun y mis yn
Neuadd y Dref, Y Bont-faen

**Twrch Trwyth (Dawnsio Gwerin)**
**Cyswllt**: Dewi Rhisiart
Ffôn: 01222 344805
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.30 pm.
yng Nghlwb Ifor Bach,
11 Stryd Womanby, Caerdydd.

**Urdd Gobaith Cymru**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Pontcanna, Caerdydd CF1 9NT
Ffôn: 01222 236201
**Cyswllt**: Siân Jobbins
**Dydd Llun:**
6 pm - 7 pm Adran yr Urdd, Llandaf
**Dydd Mawrth:**
7 pm - 8.30 pm Clwb Paniau Dur yr Urdd
**Dydd Mercher:**
6 pm - 7 pm Clwb 'Circuit Training' -
Ffôn: 345395
**Dydd Gwener:**
5 pm - 6 pm Clwb Gymnasteg yr Urdd
5.30 pm - 6.30 pm Clwb Dawnsio 7-14 oed
**Dydd Sadwrn:**
10 am - 11 am Clwb Pêl-rwyd yr Urdd
10 am - 11 am Clwb Pêl-droed yr Urdd
(ar Gaeau Llandaf)